Healthcare Inspectorate Wales
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Claire Price Beauty Clinic, y Fenni

Dyddiad Arolygu: 29 Tachwedd 2016

Dyddiad Cyhoeddi: 1 Mawrth 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn**: 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan** www.agic.org.uk



ISBN Digidol978-1-4734-8777-2


© Hawlfraint y Goron 2017

# Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 2

2. Methodoleg .......... 3

3. Cyd-destun .......... 4

4. Crynodeb .......... 5

5. Canfyddiadau .......... 6

Ansawdd profiad y claf .......... 6

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .......... 8

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .......... 11

6. Y Camau Nesaf .......... 13

Atodiad A .......... 14

# 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Prif ddiben AGIC yw:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, a sefydlu sut mae gwasanaethau'n bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.[1]

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau yn dilyn arolygiad o wasanaeth gofal iechyd annibynnol.  Mae AGIC yn gyfrifol am gofrestru ac arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ysbytai annibynnol, clinigau annibynnol, ac asiantaethau meddygol annibynnol.

Rydym yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn ein hadroddiadau arolygu o dan dair thema:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
- Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.

---

[1] Cafodd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2011. Diben y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yw sicrhau bod cleifion a phobl sy'n dewis gofal iechyd preifat yn cael sicrwydd bod y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn ddiogel ac o ansawdd da. http://www.hiw.org.uk/rheoleiddio-gofal-iechyd

## 2. Methodoleg

Yn ystod yr arolygiad, rydym yn casglu gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau â staff (lle bo hyn yn briodol) a rheolwr cofrestredig y gwasanaeth
- Sgyrsiau â chleifion a pherthnasau (lle y bo'n briodol)
- Archwilio sampl o gofnodion cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau
- Archwilio offer a'r amgylchedd
- Gwybodaeth yn natganiad o ddiben y gwasanaeth, ei ganllaw i gleifion, a'i wefan (lle bo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd cyn yr arolygiad.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiad drwy gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.[2] Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw welliannau eraill sydd eu hangen, yn Atodiad A'r adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau'n cynnig cipolwg o ba mor dda mae gwasanaethau yn bodloni safonau a rheoliadau hanfodol o ran diogelwch ac ansawdd ar ddiwrnod yr arolygiad.

[2] Fel rhan o broses diffyg cydymffurfio a gorfodi AGIC ar gyfer gofal iechyd annibynnol, bydd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio'n cael ei gyflwyno mewn achos lle mae diffyg cydymffurfio rheoleiddiol yn fwy difrifol ac yn perthyn i ganlyniadau gwael a methiannau systemig. Achosion o'r fath fydd rhai lle mae canlyniadau gwael i bobl (oedolion neu blant) sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a lle mae methiannau'n arwain at danseilio hawliau pobl. Mae copi o broses cydymffurfiaeth AGIC ar gael ar gais.

## 3. Cyd-destun

Mae Claire Price Beauty Clinic, y Fenni wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol, gan ei fod yn darparu triniaethau technoleg golau pwls dwys (IPL)[3] yn Beechcroft House, Heol Henffordd, Maerdy, y Fenni, NP7 6LE.  Cofrestrwyd y gwasanaeth gyntaf yn 2005.

Ar adeg yr arolygiad, roedd y tîm staff yn cynnwys y rheolwr cofrestredig a phum gweithredwr laser arall. Mae’r gwasanaeth wedi’i gofrestru i ddarparu’r triniaethau canlynol i gleifion dros 18 mlwydd oed:

System golau pwls dwys Depilex L900 ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Gwaredu blew
- Gwaredu gwythiennau edau
- Pigmentiadau
- Ieuangu'r croen
- Arwyneb anwastad i'r croen
- Cochni a chroendyllau agored
- Acne
- Acne rhosynnaidd

[3] Mae golau pwls dwys yn dechnoleg ffynhonnell oleuni sbectrwm eang sy’n cael ei defnyddio gan ymarferwyr meddygol a chosmetig i gyflawni triniaethau croen amrywiol at ddibenion esthetig a therapiwtig.

## 4. Crynodeb

Yr hyn mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rhoddwyd digon o wybodaeth i gleifion wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth
- Mae'r gwasanaeth yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion
- Roedd gan y gwasanaeth system ar waith i gasglu barn cleifion.

Yr hyn y mae angen ei wneud i wella'r gwasanaeth:

- Mae angen adnewyddu gwiriadau manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd pob un o'r gweithredwyr laser
- Diweddariadau i'r canllaw i gleifion
- Adolygu protocolau meddygol

Nodir manylion pellach ynglŷn â'r gwelliannau hyn yn Atodiad A.

O ystyried canfyddiadau'r arolygiad hwn, mae angen rhai gwelliannau i'r trefniadau sicrhau ansawdd a llywodraethu ar gyfer y gwasanaeth hwn, i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol. Mae hyn yn bwysig i sicrhau diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth a ddarperir.

Er nad yw hyn wedi arwain at hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, mae disgwyl i'r rheolwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon i roi sylw i'r materion hyn, oherwydd y byddai methu â gwneud hynny'n golygu y gallai AGIC gymryd camau am beidio â chydymffurfio â'r rheoliadau.

## 5. Canfyddiadau

### *Ansawdd profiad y claf*

**Gwybodaeth a chaniatâd cleifion (Safon 9)**

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod cleifion yn derbyn digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth.

Dywedwyd wrthym y cynhelir ymgynghoriad ar lafar gyda'r cleifion cyn triniaeth, a oedd yn cynnwys trafodaeth am y risgiau a'r manteision. Gofynnid i gleifion roi cydsyniad ysgrifenedig ar gyfer eu triniaeth, a gwelsom enghreifftiau o wybodaeth a chanllawiau gofal dilynol a roddwyd i gleifion.

Gwelsom y gofynnid i gleifion gwblhau ffurflenni hanes meddygol a chafodd unrhyw ddiweddariadau neu newidiadau eu gwirio ym mhob apwyntiad. Fodd bynnag, nid oedd yr holl gofnodion a samplwyd wedi cael eu llofnodi gan y claf, na'u cydlofnodi gan y gweithredwr peiriant laser.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i ffurflenni cydsyniad ar gyfer pob triniaeth ac unrhyw newidiadau neu ddiweddariadau i hanesion meddygol cleifion gael eu llofnodi gan y claf a'r gweithredwr laser.***

**Cyfathrebu'n effeithiol (Safon 18)**

Roedd dogfen canllaw i gleifion ar gael, ond roedd angen diweddaru hon yn unol â'r rheoliadau.  Roedd y prif broblemau fel a ganlyn:

- Y telerau a'r amodau o ran y gwasanaethau i'w darparu ar gyfer cleifion, gan gynnwys y swm a'r dull o dalu ffioedd ar gyfer cleifion am bob agwedd ar eu triniaethau
- Crynodeb o'r weithdrefn gwyno
- Crynodeb o safbwyntiau'r cleifion a phobl eraill a gasglwyd yn unol â'r rheoliadau

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid diweddaru'r canllaw i gleifion yn unol â'r rheoliadau.***

Roedd datganiad o ddiben ar gael a oedd yn cynnwys y wybodaeth berthnasol ynglŷn â'r gwasanaeth a oedd yn cael ei gynnig.

**Ymgysylltu â dinasyddion a chael adborth (Safon 5)**

Canfuom fod gan y clinig system ar waith ar gyfer casglu adborth gan y cleifion fel ffordd o fonitro ansawdd y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu.

Roedd y cleifion yn gallu rhoi adborth ar lafar ar ôl eu triniaeth, trwy holiaduron cleientiaid, neu drwy adael sylwadau yn y blwch sylwadau sydd yn y dderbynfa. Roedd hefyd yn bosibl gwneud sylwadau a rhoi adborth yn ddienw. Gwelsom fod adborth yn cael ei ddadansoddi bob blwyddyn a'i ddefnyddio'n fewnol i wella gwasanaethau. Mae hyn yn arfer da o ran monitro a chynnal ansawdd y gofal a ddarperir. Gwnaethom hysbysu'r rheolwr cofrestredig bod angen hysbysu cleifion am y canlyniadau hyn, a dywedwyd wrthym mai'r bwriad oedd arddangos canlyniadau adborth cleifion yn y dderbynfa neu ar wefan y clinig.

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r clinig ddosbarthu holiaduron AGIC er mwyn cael barn cleifion am y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 20 o holiaduron cleifion cyn dyddiad yr arolygiad. Roedd yr ymatebion i'r holiaduron yn unfrydol gadarnhaol. Roedd yr holl gleifion yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â datganiadau bod y clinig yn lân ac yn daclus, a bod y staff yn gwrtais, yn ofalgar, yn gwrando, ac yn darparu digon o wybodaeth i gleifion am eu triniaeth. Roedd y rhan fwyaf o gleifion o'r farn bod y gofal a'r driniaeth a dderbyniwyd yn y gwasanaeth yn rhagorol. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> 'Ers dod i'r clinig rwyf wedi cael yr holl staff yn broffesiynol ac yn gyfeillgar. Mae pob triniaeth sydd wedi cael ei chyflawni wedi cael ei chynnal mewn ffordd ardderchog ac ni allaf gwyno.'
>
> 'Rwyf wedi bod yn cael triniaeth gwaredu blew â golau pwls dwys ers dros flwyddyn. Rwy'n hapus iawn gyda'r canlyniadau a'r ffordd rwyf wedi cael fy nhrin. Rwy'n bwriadau dechrau ar ddarn arall, gan fy mod i mor hyderus ynglŷn â thriniaeth a phroffesiynoldeb y salon.'
>
> 'Staff gwych, bob amser yn gwenu. Mae'r salon yn lân ac yn daclus a chanddo safonau uchel.'
>
> 'Therapydd hyfryd a thriniaeth broffesiynol. Rwy'n hapus iawn gyda'r canlyniadau'

## *Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol*

**Gofal diogel a chlinigol effeithiol (Safon 7) a dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol (Safon 16)**

Gwelsom dystiolaeth fod y rheolwr cofrestredig a phawb sy'n gweithio gyda pheiriannau laser wedi cwblhau hyfforddiant cyfredol ar ddefnyddio'r peiriannau laser a hyfforddiant Craidd Gwybodaeth[4] a gwelsom yr holl dystysgrifau hyfforddiant perthnasol.

Gwelsom fod contract cyfredol ar waith gydag ymgynghorydd diogelu rhag laserau, ac roedd rheolau lleol gyda manylion ynglŷn â gweithredu'r peiriant yn ddiogel. Cafodd y rheolau hyn eu hadolygu'n ddiweddar gan yr ymgynghorydd diogelu rhag laserau, a gwelsom nad oeddent wedi cael eu llofnodi gan bob gweithredwr laser eto i ddangos eu bod yn ymwybodol o'r rheolau hyn ac yn cytuno i'w dilyn. Fodd bynnag, trefnodd y rheolwr cofrestredig i'r holl weithredwyr laser lofnodi'r rheolau lleol yn syth ar ôl ein harolygiad.

Roedd polisi rheoli risg ar gael i ni ei weld ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd yr asesiadau risg amgylcheddol wedi cael eu hadolygu gan yr ymgynghorydd diogelu rhag laserau, a gwelsom gadarnhad fod yr holl gamau wedi cael eu cymryd.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu llygaid ar gael i gleifion a'r gweithredwyr laser. Roedd y cyfarpar diogelu llygaid mewn cyflwr da yn ôl pob golwg, a gwnaeth y rheolwr cofrestredig gadarnhau bod pob sbectol yn cael ei gwirio am ddifrod yn rheolaidd.

Dywedwyd wrthym fod y peiriant wedi cael ei raddnodi a'i wasanaethu'n ddiweddar i sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio, a gwelwyd y dystysgrif i gadarnhau hyn.

Roedd arwydd y tu allan i'r ystafell driniaeth a oedd yn dangos pryd roedd y peiriant golau pwls dwys yn cael ei ddefnyddio. Gwnaeth y rheolwr cofrestredig gadarnhau hefyd bod drws yr ystafell driniaeth ar glo pan fo'r peiriant yn cael ei ddefnyddio er mwyn atal mynediad heb ganiatâd.

Dywedwyd wrthym fod y peiriant yn cael ei gadw'n ddiogel bob amser. Roedd y cerdyn allwedd i gychwyn y peiriant golau pwls dwys yn cael ei dynnu allan a'i gadw'n ddiogel pan nad oedd y peiriant yn cael ei ddefnyddio, er mwyn atal mynediad heb ganiatâd.

---

[4] Mae hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ar gyfer gweithredwyr sy’n defnyddio laserau a systemau golau pwls dwys ar gyfer triniaethau croen amrywiol. Mae’r hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth ac arweiniad ar ddefnyddio systemau golau pwls dwys a laserau’n ddiogel.

Roedd angen adolygu'r protocolau meddygol a welsom ar gyfer y peiriant golau pwls dwys ar ddiwrnod ein hymweliad. Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r protocolau a oedd ar waith a threfnu i'r rhain gael eu cymeradwyo gan weithiwr meddygol proffesiynol sydd wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol[5].

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y protocolau meddygol yn cael eu hadolygu a'u llofnodi gan ymarferydd meddygol arbenigol priodol.***

**Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed (Safon 11)**

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion dros 18 mlwydd oed yn unig. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â hyn.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig sut y byddai'n ymdrin ag unrhyw faterion diogelu yn ymwneud ag oedolion. Roedd polisi diogelu ar waith. Fodd bynnag, roedd angen diweddaru hwn i gynnwys y manylion cyswllt newydd ar gyfer y tîm diogelu lleol. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i ddiweddaru'r polisi ar unwaith. Gwnaed y newid hwn yn dilyn ein harolygiad. Roedd y staff hefyd wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.

**Atal a rheoli heintiau a dadheintio (Safon 13)**

Gwelsom fod y gwasanaeth yn lân ac yn daclus iawn. Gwnaethom drafod y trefniadau rheoli heintiau oedd ar waith â'r rheolwr cofrestredig ac roeddem o'r farn eu bod yn briodol ar gyfer amddiffyn cleifion rhag croes-heintio.

Mae gwastraff clinigol yn cael ei waredu'n briodol a gwelsom fod gan y gwasanaeth gontract ar waith gyda chwmni cludo gwastraff cymeradwy.

**Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch (Safon 22)**

Gwelsom dystiolaeth bod profion offer cludadwy wedi cael eu cynnal i helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn ddiogel i’w defnyddio. Gwelsom dystiolaeth hefyd bod gwiriad o wifrau trydanol yr adeilad wedi cael ei gynnal o fewn y pum mlynedd diwethaf, a gwelsom y dystysgrif nwy flynyddol a oedd yn dangos bod gwiriad diogelwch nwy wedi cael ei gynnal yn ddiweddar.

---

[5] Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn gorff cyhoeddus sy'n cynnal y gofrestr swyddogol o ymarferwyr meddygol yn y DU. Ei brif gyfrifoldeb yw 'amddiffyn, hyrwyddo a chynnal iechyd a diogelwch y cyhoedd’ trwy reoli mynediad i'r gofrestr, ac atal neu dynnu aelodau pan fydd angen.

Gwnaethom edrych ar rai o'r trefniadau diogelwch tân. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei fod wedi cynnal hyfforddiant diogelwch tân.  Dangosodd labeli gwasanaethu'r diffoddwyr tân eu bod yn cael eu gwasanaethu'n flynyddol, ac roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân i'w gweld yn glir. Roedd asesiadau risg tân ar waith a gwelsom dystiolaeth bod y rhain wedi cael eu hadolygu bob blwyddyn, a bod y rheolwr cofrestredig wedi cynnal ymarfer tân bob chwe mis.

Roedd pecyn cymorth cyntaf brys ar gael ac roedd tri aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf.

## *Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth*

**Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd (Safon 1)**

Y rheolwr cofrestredig sy'n rheoli ac yn berchen ar Claire Price Beauty Clinic. Gwelsom dystiolaeth bod systemau addas ar waith yn y clinig, er mwyn asesu a monitro ansawdd y gofal a ddarperir yn rheolaidd. Mae hyn oherwydd bod y rheolwr cofrestredig, yn unol â'r rheoliadau, yn casglu barn cleifion yn rheolaidd fel ffordd o lywio'r gofal, yn cynnal archwiliadau o gofnodion er mwyn sicrhau gwybodaeth gyson, ac yn asesu risgiau o ran iechyd a diogelwch.

Gwnaethom archwilio sampl o bolisïau a gweithdrefnau a oedd ar waith yn y gwasanaeth, a gwelsom fod y rhain wedi cael eu hadolygu bob tair blynedd. Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau'n cynnwys dyddiad y fersiwn a/neu ddyddiad adolygu ac roedd yn hawdd i staff ddod o hyd iddynt. Mae staff yn cael eu hysbysu am unrhyw newidiadau a wneir i bolisïau neu weithdrefnau mewn cyfarfodydd tîm.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod llinellau atebolrwydd eglur yn y gwasanaeth a bod y staff yn deall eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau yn glir.

**Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau (Safon 23)**

Gwelsom fod gan y gwasanaeth bolisi cwyno ar waith ac roedd yn darparu manylion cyswllt cywir AGIC yn unol â'r gofynion rheoleiddiol. Roedd manylion y weithdrefn gwyno hefyd wedi cael eu cynnwys yn y datganiad o ddiben.

Gwnaethom drafod sut roedd proses cofnodi cwynion a phryderon y gwasanaeth yn gweithio â'r rheolwr cofrestredig, a chanfuom fod y broses yn unol â gweithdrefn gwyno'r gwasanaeth. Gwelsom fod gan y gwasanaeth gofnod cwynion ar waith, a dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y byddai unrhyw gwynion llafar neu anffurfiol yn cael eu trin yn yr un modd â chŵyn ffurfiol.

**Rheoli cofnodion (Safon 20)**

Canfuom fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel yn y gwasanaeth. Mae hyn oherwydd bod cofnodion papur yn cael eu cadw mewn cypyrddau ffeilio a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig eu bod yn cael eu cloi pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

**Recriwtio i'r gweithlu ac arferion cyflogaeth (Safon 24)**

Roedd yn amser adnewyddu gwiriadau manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd y rheolwr cofrestredig a'r pum gweithredwr laser, a chytunodd y rheolwr cofrestredig i gynnal y gwiriadau hyn ar unwaith.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwiriadau manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pob gweithredwr laser yn cael eu hadnewyddu***

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod gwiriadau cyn cyflogi staff addas yn cael eu cynnal ar gyfer aelodau o staff newydd a bod pob aelod o'r staff yn derbyn hyfforddiant ymsefydlu.

Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal bob wyth wythnos ac roedd arfarniadau staff yn cael eu cynnal bob blwyddyn.  Mae arfarniadau'n bwysig er mwyn sicrhau bod y staff yn meddu ar yr wybodaeth a'r sgiliau cywir i gyflawni eu swyddi a bod unrhyw anghenion hyfforddi yn cael eu nodi.

Roeddem yn gallu cadarnhau bod y triniaethau a'r gwasanaethau yn y clinig yn cael eu cynnal yn unol â'r datganiad o ddiben a'r amodau cofrestru gydag AGIC.

O ystyried canfyddiadau'r arolygiad hwn, mae angen gwella trefniadau sicrhau ansawdd a llywodraethu'r gwasanaeth hwn i sicrhau cydymffurfiad parhaus â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol.

Mae gweithredu trefniadau sicrhau ansawdd a llywodraethu cadarn, ac ymateb prydlon gan y darparwr cofrestredig wrth ddatrys problemau, yn arwyddion pwysig o allu darparwr i redeg ei wasanaeth gyda gofal, cymhwysedd a medr digonol. Mae disgwyl, felly, i'r rheolwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon i roi sylw i'r materion hyn, oherwydd y byddai methu â gwneud hynny'n golygu y gallai AGIC gymryd camau am beidio â chydymffurfio â'r rheoliadau.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella o ran y gwelliannau a nodwyd yn yr adroddiad hwn.  Gellir gweld manylion hyn yn Atodiad A'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn eglur sut y bydd y gwelliannau a nodwyd yn Claire Price Beauty Clinic, y Fenni yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC ac yn cael ei werthuso yn rhan o'r broses arolygu barhaus.

*Atodiad A*

## Cynllun Gwella

## Gwasanaeth: Claire Price Beauty Clinic, Y Fenni

## Dyddiad yr arolygiad: 29 Tachwedd 2016

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| Tudalen 6 | Rhaid i ffurflenni cydsynio ynghyd ag unrhyw newidiadau neu ddiweddariadau i hanesion meddygol cleifion gael eu llofnodi gan y claf a'r gweithredwr laser. | Rheoliad 9 (4)<br>Safon 9 | Bodlonwyd y safonau<br>Cymerwyd camau gweithredu ar unwaith | Claire Price | Dim |
| Tudalen 6 | Rhaid diweddaru'r canllaw i gleifion yn unol â'r rheoliadau. | Rheoliad 7 | Gwaith yn mynd rhagddo<br>Aros am y proflenni gan y cwmni argraffu | Claire Price | Pythefnos |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 8 | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y protocolau meddygol yn cael eu hadolygu a'u llofnodi gan ymarferydd meddygol arbenigol priodol. | Rheoliad 15<br><br>Safon 7 | Bodlonwyd y safonau. Llofnodwyd gan ymarferydd meddygol arbenigol ar 25 Ionawr 2017 | Claire Price | Dim |
| **Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| Tudalen 11 | Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwiriadau manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu hadnewyddu yn achos yr holl weithredwyr laser. | Atodlen 2 | Gwaith yn mynd rhagddo – yr holl waith papur wrthi'n cael ei anfon at Anagram People | Claire Price | Tair wythnos |

## Cynrychiolydd y gwasanaeth:

**Enw (llythrennau bras):** Mr Chris Lodge

**Teitl:** Rheolwr Practis Lodge Dental

**Dyddiad:** 25 Ionawr 2017